CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion (Drafft) cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom
nos Lun, 6 o Ragfyr 2021 am **7:00yh**

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Ethan Jones, Ian Lewney a Menna Jones.

Siân Clark – Clerc y Dref a Marian Rees - Cyfieithydd

166. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cynghorwr Ifan Wyn.

167. DATGAN BUDDIANNAU
Dim.

168. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021 yn gywir.
PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 8 o Dachwedd 2021 yn cael eu cadarnhau.*

169. MATERION YN CODI
Cofnod 163: Cynnal a Chadw Ffyrdd yn Rhuthun - Adroddodd y Cynghorydd Heather Williams fod rhai arwyddion ffyrdd wedi'u tynnu gan eu bod wedi cael eu rhoi mewn camgymeriad.
Cofnod 164: Cwningar y Castell - Adroddodd y Clerc y cysylltwyd â Chyngor Sir Dinbych a'i hysbysu am bryderon y Cyngor Tref ar cais i'r Cyngor Sir gynnal arolwg llawn ac asesiad risg ar wal derfyn Cwningar y Castell. Derbyniwyd ymateb cychwynnol yn amlinellu bod y wal wedi'i harchwilio a hyd nes ei bod yn ddiogel ac yn sefydlog, byddai'r llwybr Cwningar y Castell yn parhau ar gau i'r cyhoedd. Disgwylid am wybodaeth fanwl bellach. Cadarnhaodd y Cynghorydd Heather Williams nad oedd y wal derfyn (a adeiladwyd yn yr 1800au) wedi'i chynnwys mewn gwaith yr oedd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun yn ymwneud ag ef.

170. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.
PENDERFYNWYD: *nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.*

171. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.
PENDERFYNWYD: *bod ymateb y Pwyllgor i'r ceisiadau fel a ganlyn:*

02/2021/1123 Land at Fron Haul Llanfwrog Ruthin
Amrywio amod rhif 2 a 6 o ganiatâd cynllunio 02/2019/0159 i ganiatáu dyluniad diwygiedig ac

amrywio amod rhif. 7 i ganiatáu cyflwyno manylion goleuo cyn meddiannu'r annedd gyntaf.
PENDERFYNWYD: *Dim gwrthwynebiad*

02/2021/1119 The Whins Greenfield Road Ruthin
Codi estyniad i gefn annedd a gwaith cysylltiedig.
PENDERFYNWYD: *Dim gwrthwynebiad*

02/2021/1169 15 & 15A Well Street Ruthin
Tynnu blaen siop, drws a ffenestr presennol, gosod ffenestr newydd a gwaith cysylltiedig.
PENDERFYNWYD: *Dim gwrthwynebiad, ond dylid ystyried cadw arddull draddodiadol y ffenestr siop.*

02/2021/1170 15 & 15A Well Street Ruthin
Tynnu blaen siop, drws a ffenestr presennol, gosod ffenestr newydd a gwaith cysylltiedig (cais Adeilad Rhestredig).
PENDERFYNWYD: *Dim gwrthwynebiad, ond dylid ystyried cadw arddull draddodiadol y ffenestr siop.*

02/2021/1040 Mynsvale Denbigh Road Ruthin
Codi wal derfyn (cais ôl-weithredol).
PENDERFYNWYD: *Dim gwrthwynebiad. Er nad oedd yn fater cynllunio, nodwyd bod angen ceisio eglurder ynghylch perchnogaeth y tir.*

02/2021/1195 Ruthin Town Football Club Memorial Playing Fields Parc Y Dre Road, Ruthin
Adeiladu cae pêl-droed pob tywydd, codi ffensys a gwaith cysylltiedig
PENDERFYNWYD: *Dim gwrthwynebiad*

02/2021/0383 Land at Crannog Prior Street, , Ruthin
Dymchwel garej ar wahân ac estyniadau a chodi un annedd, ffurfio mynediad ar y cyd a gwaith cysylltiedig (Ailgyflwyno)
PENDERFYNWYD: *Mynegir pryder nad yw'n ymddangos bod manylion y ddarpariaeth barcio arfaethedig ar y cynlluniau a ailgyflwynwyd yn ymarferol.*

172. NODYN CYNGOR TECHNEGOL 15: DATBLYGU, LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL
Nododd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio y diweddariad a anfonwyd gan y Gweinidog dros Newid Hinsawdd i awdurdodau lleol ar 23 Tachwedd a oedd yn atal cyflwyno TAN 15 a'r Map Llifogydd cysylltiedig ar gyfer Cynllunio tan 2023.
PENDERFYNWYD: *nodi bod cyflwyno TAN 15 a'r Map Llifogydd cysylltiedig ar gyfer Cynllunio wedi'i atal tan 2023.*

173. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai nos Lun, 10 o Ionawr 2022 am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*